

Angau yn methu Ei ddal

“Oherwydd cyhoeddi'r newydd da am Iesu a'r atgyfodiad yr oedd.” (adn. 18)

Beth am ddarllen Actau 17:16–34 ac yna myfyrio

Yr ydym yn parhau i feddwl am y pethau hynny sydd angen eu credu er mwyn bod yn ffyddlon i'r ffydd Gristnogol. Yn dilyn marwolaeth iawinol Iesu Grist, mae ei atgyfodiad oddi wrth y meirw. Mae'n ymddangos fod yr eglwys yn wynebu argyfwng ar y mater hwn. Ychydig flynyddoedd yn ôl, bu i Esgob Durham, David Jenkins, ddweud am yr atgyfodiad, 'Nid digwyddiad ond cyfres o brofiadau oedd hyn.' Wrth wneud sylwadau ar hyn, fe ddywedodd John Stott, 'Fe ddaeth yn gyfres o brofiadau oherwydd, yn gyntaf, ei fod yn ddigwyddiad gwrthrychol hanesyddol.' Daeth Iesu Grist o farw yn fyw, yn llythrennol, yn gorfforol. “Chwi a'i lladdodd,” meddai Pedr yn ei bregeth ar y Pentecost, “ond Duw a'i cyfododd ef o'r meirw.”

Efallai bod ambell un yn gofyn, 'Pa wahaniaeth yn y byd mae atgyfodiad corfforol Iesu Grist yn ei wneud?' Gadewch i ni adael i'r apostol ei ateb: 'Os nad yw Crist wedi atgyfodi, yna y mae'n pregethu a'ch ffydd chwi yn ofer... Ac yn wir os nad yw Crist wedi atgyfodi, gwagedd yw eich ffydd; yr ydych yn parhau yn eich pechodau.' Yr ydym yn gwybod heb unrhyw amheuaeth fod ein pechodau wedi eu maddau ar y groes oherwydd bod Duw wedi codi Iesu Grist o farw. Mae nifer o bobl yn gweld y groes fel methiant, yr atgyfodiad fel buddugoliaeth. Ond na – y groes oedd y fuddugoliaeth a'r atgyfodiad yw cyhoeddiad y fuddugoliaeth. Rhaid inni ymwrthod ag unrhyw ymdrech i gredu nad oedd atgyfodiad Iesu yn un corfforol. Eto, yng ngeiriau John Stott, 'Corff atgyfodedig Iesu Grist oedd ac sy'n parhau i fod y rhan yna o'r bydysawd crëedig sydd wedi ei adfer, ac yn hynny dyma gychwyn ac ernes creadigaeth newydd Duw. Oherwydd ei fod Ef yn fyw, byw fyddwn ninnau.'

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

1 Cor. 15:1–8; 15:12–22

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Faint o bobl welodd yr Iesu atgyfodedig?
2. Pam fod yr atgyfodiad mor bwysig?

Gweddi

O Arglwydd grasol, yr wyf mor ddiolchgar fy mod yn byw yn yr un a fu farw unwaith ond na fydd marw mwyach. Caniatâ i'th fywyd atgyfodedig di i lifo trwy bob rhan o'm mywyd i, heddiw a phob dydd o hyn ymlaen, a hynny er mwyn Dy enw. Amen.